**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**7 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, a Neville Phillips

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Sean Bibby ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunydd; Cynllunwyr; Uwch Gyfreithiwr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd a Swyddog Pwyllgorau.

Rhoddodd yr Uwch Gyfreithiwr wybod ei fod wedi cael hysbysiad bod y Cynghorydd Dave Mackie'n dymuno siarad ar eitem 6.4 (058296) ar y rhaglen a bod y Cynghorwyr Helen Brown a George Hardcastle yn dymuno siarad ar eitem 6.7 (058806) ar y rhaglen.

**32. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn eitem rhif 6.4 ar y rhaglen – Cais llawn – Codi 30 rhandy 2 ac 1 ystafell wely (dros 55 oed) a 3 thŷ (cyfanswm y cynllun yn 100% o dai fforddiadwy), mynediad a pharcio cysylltiedig, yn cynnwys dymchwel yr hen dafarn yn y Boars Head Inn, Holywell Road, Ewlo, gan fod aelod o'r teulu wedi'i gyflogi gan un o'r cyd-ymgeiswyr.

Datganodd y Cynghorydd Peers gysylltiad personol a rhagfarnllyd hefyd yn eitem rhif 6.5 ar y rhaglen – Cais llawn – Codi 14 Annedd a Gweithiau Cysylltiedig ym Mwthyn Withen a Ffordd Caer, Ffordd Alltami, Bwcle gan ei fod yn Gadeirydd ar Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle. Mae'n datgan diddordeb oherwydd ei fod yn Lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Mountain Lane ac er bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar gapasiti disgyblion yn yr ysgol, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu darparu cyfraniad ariannol ar gyfer yr ysgol i fynd i'r afael â'r effaith. Dywedodd y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

Yn dilyn cyngor gan yr Uwch Gyfreithiwr, datganodd y Cynghorydd Neville Phillips gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn eitem rhif 6.5 ar y rhaglen – Cais llawn – Codi 14 Annedd a Gwaith Cysylltiedig ym Mwthyn Withen a Cheshire Lane, Ffordd Alltami, Bwcle, gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle ac yn Gadeirydd Pwyllgor Safleoedd yr Ysgol.

Yn dilyn cyngor gan yr Uwch Gyfreithiwr, datganodd y Cynghorydd Carol Ellis gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn eitem rhif 6.5 ar y rhaglen – Cais llawn – Codi 14 Annedd a Gwaith Cysylltiedig ym Mwthyn Withen a Cheshire Lane, Ffordd Alltami, Bwcle, gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle ac yn aelod o Bwyllgor Chwaraeon a Chymdeithasol yr Ysgol. Dywedodd y Cynghorydd Ellis y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

**33. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4358&Ver=4&LLL=0

**34. COFNODION**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Hydref 2018 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**35. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Argymhellodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y dylid gohirio eitem rhif 6.3 ar y rhaglen – (058359) – Cais Llawn – Newid Defnydd o Dir i Safle Carafanau Teithiol/Pebyll yn yr Hen Dafarn, Llannerch-y-Môr, Treffynnon. Eglurodd y Prif Swyddog ei fod yn argymell gohirio'r cais i geisio datrys y mater carthffosiaeth o'r safle.

Wrth roi'r mater i'r bleidlais, gohiriwyd yr eitem.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio eitem rhif 6.3 ar y rhaglen – (058359) – Cais Llawn – Newid Defnydd o Dir i Safle Carafanau Teithiol/Pebyll yn yr Hen Dafarn, Llannerch-y-Môr, Treffynnon.

**36. ADRODDIADAU'R (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 37. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 8 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.06 pm)

...................................................

**Cadeirydd**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 7 TACHWEDD 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058311 | Cyngor Cymuned Mostyn | Cais Llawn – Bwriad i leoli 26 carafán gwyliau sefydlog ynghyd â thirweddu ychwanegol ac ategol yng Nghlwb Golff Parc Pennant, Mertyn Downing Lane, Maes Pennant, Treffynnon. | Siaradodd Mr P Jones, yr asiant, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058733 | Cyngor Tref Caerwys | Cais Llawn - Estyniad i barc gwyliau presennol i ganiatáu symud carafanau teithiol a sefydlog wedi eu cymeradwyo i hwyluso gwelliannau i gynllun y parc presennol, ynghyd â chreu ardal ar gyfer 6 safle glampio a gwaith tirlunio pellach yn Barlows Carafán Park, Ffordd Pen y Cefn, Caerwys. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058359 | Cyngor Tref Mostyn | Cais Llawn - Newid defnydd o dir i safle carfanau teithiol/pebyll, yn yr Hen Dafarn, Llannerch-y-môr, Treffynnon. | | **GOHIRIWYD** i ymchwilio i'r materion yn ymwneud â dŵr wyneb sy'n weddill, a rheoli dŵr gwastraff |
| 058296 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais llawn - Codi 30 o randai 2 ac 1 ystafell wely (dros 55) a 3 thŷ (cyfanswm y cynllun yn 100% o dai fforddiadwy), mynediad cysylltiol a pharcio, yn cynnwys dymchwel yr hen dafarn, Boars Head Inn, Ffordd | Siaradodd y Cynghorydd Joyce Angell, ar ran Cyngor Cymuned Penarlâg, yn erbyn y cais<br><br>Siaradodd Mr C Sparrow, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | **GOHIRIWYD** i archwilio a oes modd goresgyn y materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor o ran dylunio, parcio a phriffyrdd gyda'r datblygwr. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Treffynnon, Ewlo. | Siaradodd y Cynghorydd Dave Mackie, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | |
| 058229 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Codi 14 o anheddau a gwaith cysylltiedig yn Withen Cottage a Cheshire Lane, Ffordd Alltami, Bwcle. | Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis, fel aelod Lleol, yn erbyn y cais a gadawodd yr ystafell cyn trafod a phleidleisio ar y cais.<br><br>Siaradodd Mrs A Forshaw yn erbyn y cais<br><br>Siaradodd y Cynghorydd David Ellis, ar ran Cyngor Tref Bwcle, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers, fel aelod Lleol, yn erbyn y cais a gadawodd yr ystafell cyn trafod a phleidleisio ar y cais. | Gwrthodwyd yn erbyn argymhelliad swyddog, ar y seiliau canlynol:-<br><br>Mae'r datblygiad yn annerbyniol gan y byddai'r mynediad yn cyflwyno cerbydau'n gwneud symudiadau ar draws Llwybr Diogel i Ysgol.<br><br>Ni fydd y mesurau gostegu traffig a gynigiwyd yn goresgyn y pryder ynghylch diogelwch cerddwyr sy'n defnyddio'r Llwybr Troed Cyhoeddus hwnnw. |
| 058254 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais Llawn – Codi llety mewn cysylltiad â chanolfan hyfforddi cŵn adar yn Gaer Go, Cefn Road, Cilcain. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058806 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Gosod aráe paneli solar ar do Aston WPS, Church | Siaradodd Mr D Anderson, yr asiant, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Lane, Aston. | Siaradodd y Cynghorydd George Hardcastle, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | yn unol ag argymhelliad y swyddog. |